# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 4**

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Cofrestr o drwyddedau triniaeth arbennig a mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd*

PROSPECTIVE

**75 Dyletswydd i gynnal cofrestr o drwyddedau triniaeth arbennig a mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd**

(1) Rhaid i awdurdod lleol gynnal a chyhoeddi cofrestr—

(a) o'r trwyddedau triniaeth arbennig sydd wedi eu dyroddi ganddo ond nad ydynt wedi peidio â chael effaith eto, a

(b) o'r mangreoedd a'r cerbydau sydd wedi eu cymeradwyo ganddo ar hyn o bryd o dan adran 70.

(2) Rhaid i bob cofnod yn y gofrestr mewn cysylltiad â thrwydded gofnodi—

(a) enw deiliad y drwydded;

(b) y dyddiad y dyroddwyd y drwydded;

(c) y driniaeth y mae'r drwydded yn awdurdodi iddi gael ei rhoi;

(d) cyfnod y drwydded;

(e) yn achos trwydded sy'n awdurdodi i driniaeth gael ei rhoi mewn mangre o fewn adran 59(3), gyfeiriad y fangre lle yr awdurdodir i'r driniaeth gael ei rhoi;

(f) yn achos trwydded sy'n awdurdodi i driniaeth gael ei rhoi mewn cerbyd o fewn adran 59(3) sydd â rhif cofrestru, rif cofrestru'r cerbyd;

(g) yn achos trwydded sy'n awdurdodi i driniaeth gael ei rhoi mewn cerbyd o fewn adran 59(3) nad oes ganddo rif cofrestru, pa fanylion adnabod bynnag am y cerbyd y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol.

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 75 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(3) Rhaid i bob cofnod yn y gofrestr mewn cysylltiad â mangre neu gerbyd a gymeradwywyd gofnodi—

(a) enw'r person y rhoddwyd y cymeradwyaeth ar ei gais;

(b) yn achos cofnod mewn cysylltiad â mangre, gyfeiriad y fangre;

(c) yn achos cofnod mewn cysylltiad â cherbyd sydd â rhif cofrestru, rif cofrestru'r cerbyd;

(d) yn achos cofnod mewn cysylltiad â cherbyd nad oes ganddo rif cofrestru, pa fanylion adnabod bynnag am y cerbyd y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol;

(e) y driniaeth y mae'r gymeradwyaeth yn gymwys mewn cysylltiad â hi;

(f) y dyddiad y rhoddwyd y gymeradwyaeth;

(g) cyfnod para'r gymeradwyaeth.

(4) Caiff y gofrestr hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod sy'n ei chynnal yn ystyried ei bod yn briodol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drefnu i'r dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol gan yr adran hon gael eu cyflawni drwy gofrestr ganolog a gedwir gan awdurdod lleol a benodir yn unol â'r trefniadau.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn unrhyw drefniadau a wneir o dan is-adran (5) ac iddynt gyfrannu at gost y trefniadau hynny.

(7) Caiff y gofynion y caniateir iddynt gael eu gosod ar awdurdod o dan is-adran (6) gynnwys (ymhlith pethau eraill) gofyniad i rannu gwybodaeth â'r awdurdod a benodir i gadw'r gofrestr ganolog.

(8) At ddibenion yr adran hon, mae "cofrestr ganolog" yn gofrestr sy'n cwmpasu ardaloedd pob awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 75 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 75 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2